

585/51

CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY5
(FIRST LANGUAGE)

Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU

(Arholiad Ysgrifenedig)

A.M. DYDD MAWRTH, 12 Mehefin 2007

(2½ awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch y **tri** chwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Dylech dreulio tuag **AWR** ar gwestiwn 1 a thua **45 munud yr un** ar gwestiynau 2 a 3.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Troschwch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1 – 16** ‘Nyt oes neb yma a wypo ... yssyd ar yr auon’. [20]
- (b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn **cyfan** isod. [10]
- (c) Dadansoddwch arddull y darn **cyfan** isod gan gyfeirio at enghreifftiau penodol. [20]

<p>‘Nyt oes neb yma a wypo dim y wrth hynny, onys gwyr Branwen. Gouynnwch idi.’ Kennadeu a aeth at Uranwen. ‘Arglwydes,’ heb wy, ‘beth dybygy di yw hynny?’ ‘Kyn ny bwyf arglwydes,’ heb hi, ‘mi a wnn beth yw hynny. Gwyr Ynys y Kedyrn yn dyuot drwod o glybot uym poen a’ m amharch.’ ‘Beth yw y coet a welat ar y mor?’ heb wy. [5] ‘Gwernenni llongeu, a hwylbrenni,’ heb hi. ‘Och!’ heb wy, ‘beth oed y mynyd a welit gan ystlys y llongeu?’ ‘Bendigeiduran uym brawt,’ heb hi, ‘oed hwnnw, yn dyuot y ueis. Nyt oed long y kynghanei ef yndi.’ ‘Beth oed yr eskeir aruchel a’r llynn o bop parth y’r eskeir?’ [10] ‘Ef,’ heb hi, ‘yn edrych ar yr ynys honn, lldyawc yw. Y deu lygat ef o pop parth y drwyn yw y dwy lynn o bop parth y’r eskeir.’ Ac yna dygyuor holl wyr ymlad Iwerdon a wnaethpwynt y gyt, a’r holl uorbennyd yn gyflym, a chynghor a gymerwynt. ‘Arglwyd,’ heb y wyrda wrth Uatholwch, ‘nyt oes gynghor namyn kilyaw drwy Linon (auon oed yn Iwerdon), a gadu Llinon y rot ac ef, a thorri y bont yssyd ar yr auon. [15]</p>	
---	--

A mein sugyn yssyd ygwaelawt yr auon, ny eill na llong na llestyr arnei.’ Wynt a gylyssant drwy yr auon, ac a torryssant y bont.

Bendigeiduran a doeth y’r tir, a llynges y gyt ac ef, parth a glann yr auon.

‘Arglwyd,’ heb y wyrda, ‘ti a wdost kynnedyf yr auon, ny eill neb uynet drwydi, nyt oes bont arnei hitheu. Mae dy gynghor am bont?’ heb wy. [20]

‘Nit oes,’ heb ynteu, ‘namyn a uo penn bit pont. Mi a uydaf pont,’ heb ef. Ac yna gyntaf y dywetpwynt y geir hwnnw, ac y diharebir etwa ohonaw.

2. Yr Hengerdd

Darllenwch y dyfyniad a ganlyn ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Nodwch enw'r bardd os yw'n hysbys. [2]
- (b) Rhowch gefndir y gerdd a'r bardd. [20]
- (c) Dadansoddwch arddull y bardd yn y gerdd hon. [20]
- (ch) Esboniwch yn gryno unrhyw **ddau** o'r ymadroddion a geir mewn llythrennau *italig* yn y dyfyniad. [8]

Arwr ardwy ysgwyd o dan ei dalfrith
Ac ail tuth orwyddan:
 Bu trydar yn aerfre, bu tân,
 Bu ehud ei waywawr, bu huan;
Bu bwyd brain, bu budd i frân;
 A chyn edewid yn rhydon
 Gan wlith, eryr tuth tirion!
 Ac o du gwasgar gwaneg tu bron.
 Beirdd byd barnant wŷr o galon.
 Diebyrth ei gerth, ei gynghyr;
 Difa oedd ei gynrhain gan wŷr.
 A chyn ei olo o dan *Eleirch*
Fre - ydoedd wryd yn ei arch -
 Gorgolches ei grau ei seirch:
 Buddfan fab Bleiddfan, dihafarch.

3. Y Cywyddau

(a) Dadansoddwch y gynghanedd yn yr wyth llinell a ganlyn. [8 × 1]

1. Anial yw ôl camoleg,
2. Nid rhaid twyll, fy neudroed teg,
3. Yn bhwman rhag annwyd
4. Ynghylch dy dŷ, Lleucu Llwyd.
5. A genais, lugorn Gwynedd,
6. O eiriau gwawd, eiry ei gwedd,
7. Llef drioch, llaw fodrwyaur
8. Lleucu, moliant fu it, f'aur.

(b) Darllenwch y dyfyniad a ganlyn. Nodwch enw'r bardd. [2]

(c) Gosodwch y dyfyniad yn ei gyd-destun. [20]

(ch) Dadansoddwch arddull y bardd yn y dyfyniad. [20]

Afal pêr ac aderyn
 A garai'r gwas, a gro gwyn;
 Bwa o flaen y ddraenen,
 Cleddau digon brau o bren.
 Ofni'r bib, ofni'r bwbach,
 Ymbil â'i fam am bêl fach.
 Canu i bawb acen o'i ben,
 Canu 'wô' er cneuen.
 Gwneuthur moethau, gwenieithio,
 Sorri wrthyf fi wnâi fo,
 A chymod er ysglodyn,
 Ac er dis a garai'r dyn.

Och nad Siôn, fab gwirion gwâr,
 Sy'n ail oes i Sain Lasar!
 Beuno a droes iddo saith
 Nefolion yn fyw eilwaith;
 Gwae eilwaith, fy ngwir galon,
 Nad oes wyth rhwng enaid Siôn.